



Rhifyn 6 Rhagfyr 2015 o'r Cylchlythyr

Dyna ni ar ddiwedd blwyddyn arall. Mae 2015 wedi hedfan. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn brysur iawn, yn enwedig wrth weithio gydag ysgolion lleol. Rydym yn gwybod yn barod y bydd y flwyddyn nesaf yn flwyddyn brysur eto, nid yn unig mewn ysgolion ond yn ystod y cyfnod yn arwain at y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n edrych yn debyg y bydd yn flwyddyn brysur. Dylai unrhyw un sydd eisiau gwybod mwy am yr Undeb Ewropeaidd gysylltu â ni. Er enghraifft, sut mae'n gweithio, sut mae'n effeithio ar y Deyrnas Unedig, sut mae'r Deyrnas Unedig yn cael ei chynrychioli a sut mae'r Deyrnas Unedig yn cael mewnbwn i'r penderfyniadau a wneir. Mae'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu yn ffeithiol ac rydym yn ddiuedd.

Ar y Gweill:

Rydym yn parhau i gynnal gweithdai yn Ysgol Uwchradd Darland i ddisgyblion Blwyddyn 7 yn eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd. Rydym hefyd yn darparu gweithdai i ddisgyblion Blwyddyn 9 ynglŷn â dysgu ieithoedd gan edrych ar fanteision dysgu iaith ychwanegol. Yn St Josephs byddwn yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 10 yn edrych ar yr Undeb Ewropeaidd, beth ydyw, ei hanes a sut mae'n effeithio arnom.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn byddwn unwaith eto yn mynd â stondin llawn gwybodaeth i Eisteddfod Gydwladol Llangollen. Mae wastad yn brysur iawn yno a gofynnir llawer iawn o gwestiynau gwahanol inni gan gynnwys cwestiynau am gyllid ar gyfer myfyrwyr, cyngor ynglŷn â dod o hyd i swyddi mewn gwledydd eraill, symud i wlad arall a chwestiynau amserol hefyd megis cwestiynau'r llynedd am yr argyfwng economaidd yng ngwlad Groeg. Byddwn hefyd yn ymweld â digwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn gyda'n stondin wybodaeth felly chwiliwch amdanom!

Cyhoeddiadau defnyddiol – i gael copïau am ddim cysylltwch â ni.



Sut mae'r Undeb Ewropeaidd yn Gweithio

Llyfryn wedi ei ysgrifennu mewn Cymraeg clir sy'n rhoi gwybodaeth am holl sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd a sut maen nhw'n gweithio er mwyn gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn dangos sut y mae aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn cael dweud eu dweud.



Ewrop mewn 12 gwrs

Mae'n ateb cwestiynau megis: Beth mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei wneud? Pam a sut y cafodd ei sefydlu? Sut mae'n gweithio? Beth mae'r Undeb Ewropeaidd wedi ei gyflawni hyd yma, a pha heriau newydd y mae'n eu hwynebu heddiw?

Ysgolion Cynradd ac Uwchradd – mae gennym restr o gyhoeddiadau sy'n addas ar gyfer y grwpiau oedran hyn, cysylltwch â ni am gopi. Mae'r holl gyhoeddiadau am ddim a gellir eu darparu cyflenwadau mawr ohonynt. Hefyd bydd llyfryn rhyngweithiol newydd o'r enw *Draw and Play* ar gael tua mis Mawrth / Ebrill y flwyddyn nesaf.



Our Planet, Our Future

Cyhoeddi ar ffurf cylchgrawn ynglŷn â newid yn yr hinsawdd. Mae ynddo adran yn sôn am wyddoniaeth ac mae ynddo gyfweiliadau gyda myfyrwyr, yn ogystal â gwybodaeth am bethau sy'n digwydd ar draws Ewrop i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i hinsawdd sy'n newid.



Ten Priorities for Europe

Mae'n amlinellu pob un o'r meysydd blaenoriaeth megis swyddi a thwf, newid democrataidd, marchnad ddigidol sengl, marchnad fewnol decach a llawer mwy.

Deng-mlwyddiant Cyfnewidfa Addurniadau Coed Nadolig Ewropeaidd

Mae ein Cynllun Cyfnewid Addurniadau Coed Nadolig blynyddol yn dirwyn i ben, er mae'n debyg mai dyma'r rhan mwyaf cyffrous o'r digwyddiad! Mae ysgolion sy'n cymryd rhan bob amser yn dweud wrthym fod y plant a'r athrawon yn cyffroi pan fo'r parseli'n dechrau cyrraedd a'u bod yn rhuthro i'w hagog er mwyn cael gweld pa addurniadau sydd ynddo ac o le maen nhw'n dod. Mae'r parseli bob amser yn cynnwys gwybodaeth am sut y dethlir y Nadolig yn y wlad honno. Weithiau bydd hynny ar ffurf llyfryn, cyflwyniad neu fideo.

Mae'r amser sy'n cael ei dreulio yn gwneud yr addurniadau'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gall gymryd llawer o amser i'w cynllunio, i'w paratoi a'u gwneud a gwneud y pecyn gwybodaeth cyn anfon y cwbl. Mae brwdfrydedd yr athrawon a'r plant yn wych ac mae'n bleser cael bod yn rhan o'r prosiect.

Bydd ein coeden ac arni addurniadau oddi wrth 30 o ysgolion sy'n bartneriaid i ni ledled yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei harddangos yn Llyfrgell Wrecsam o ddechrau mis Rhagfyr. Byddwn hefyd yn dangos y pecynnau gwybodaeth a gawsom i chi gael dysgu am draddodiadau a dathliadau gwledydd eraill.

Dyma'r degfed tro i ni gyfnewid addurniadau coed Nadolig a'r mwyaf hyd yma. Ewrop Uniongyrchol Llangollen ddechreuodd hyn am y tro cyntaf yn 2006 mae wedi tyfu bob blwyddyn ers hynny. Eleni mae 279 o ysgolion yn cymryd rhan mewn 55 o ranbarthau mewn 18 o wledydd. Mae 9 o ysgolion yn Wrecsam yn cymryd rhan eleni.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â ni



Gallwch weld rhagor o addurniadau ar y calendr Adfent sydd ar ein tudalennau twitter a facebook.

@europedirectwxm

Facebook.com/europedirectwrexham

Sut mae pobl mewn gwledydd eraill yn dathlu'r Nadolig?

Ynghyd â chyfnewid Addurniadau Coed Nadolig rydym hefyd wedi bod yn darparu gweithdai mewn Ysgolion Cynradd yn trafod y Nadolig mewn gwledydd eraill.

Cawsom amser cyffrous iawn yn siarad â phlant o'r dosbarth meithrin hyd flwyddyn 6 ynglŷn â sut mae pobl mewn gwledydd eraill yn dathlu'r Nadolig. Roedd pob gweithdy'n canolbwyntio ar wlad yr oedd yr ysgol wedi ei dewis. Yn aml iawn byddai'r ysgolion yn dewis eu gwledydd yn seiliedig ar genedligrwydd plant yn y dosbarth neu genedligrwydd un o'u rhieni.

Rydym wedi edrych ar: Sweden, Denmarc, yr Eidal, yr Almaen, Gwlad Groeg, Sbaen, Gwlad Pwyl, yr Iseldiroedd a Rwmania. Ym mhob gweithdy rydym yn cyflwyno gwybodaeth am draddodiadau a straeon o'r wlad honno, am y bwyd y maent yn ei fwyta ac yn sôn pwy sy'n dod ag anrhegion iddynt a phryd. Yna bydd y plant yn gwneud addurn sy'n gysylltiedig â'r wlad honno, roedd hyn yn amrywio o addurno canhwyllau, i wneud llusernau, sêr, platiau a chlocsiâu.

Isod fe welwch rai lluniau a dynnwyd yn y gweithdai o'r addurniadau yr oedd y plant wedi'u gwneud.



Traddodiadau'r Nadolig yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd

Mae llawer yn debyg rhwng y ffordd mae pobl mewn gwahanol wledydd yn dathlu'r Nadolig ond hefyd mae gwahaniaethau bach o ran pwy sy'n dod â'r anrhegion a sut a phryd maen nhw'n dod â'r anrhegion.

Yng Nghyprus mae creaduriaid bach o'r enw Kalikantzari. Maen nhw'n ddrygionus ac yn chwarae castiau yn ystod 12 diwrnod y Nadolig rhwng 25 Rhagfyr hyd 6 Ionawr.

Yng Ngwlad Groeg ers talwm roedden nhw'n arfer addurno cychod yn hytrach na choed.

Ar 6 Rhagfyr mae 15 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn dathlu gŵyl Sant Nicholas sy'n cyrraedd ar gefn asyn. Y gwledydd sy'n dathlu gŵyl Sant Nicholas yw: Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, y Weriniaeth Tsiec, yr Almaen, Hwngari, yr Eidal, Lwcsembwrg, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia a Slofenia.



Yn yr Eidal ar noswyl 6 Ionawr daw'r Wrach Dda, La Befana, heibio ar ei hysgub. Mae hi'n rhoi melysion i blant da ac yn rhoi siarcol neu fagiau o ludw i blant drwg.

Yn yr Iseldiroedd daw Sinterklaas ag anrhegion mewn cwch stêm ar y gamlas yn Amsterdam ar nos Sadwrn olaf mis Tachwedd. Ar 5 Rhagfyr, bydd y plant yn rhoi eu hesgidiau wrth ymyl y lle tân ac yn eu llenwi â gwair a moron ar gyfer ceffyl Sinterklaas. Drannoeth, bydd yr esgidiau'n llawn anrhegion.

Yng Ngwlad Pwyl, maent yn gadael yn lle gwag wrth y bwrdd fel arwydd o'u hundod ag aelodau ymadawedig y teulu. Mae hefyd yn arwydd o'u parodrwydd i groesawu person unig at y bwrdd.

Gall plant yn Slofenia gael anrhegion Nadolig o bedwar ffynhonnell wahanol: Gan Sant Nicholas ar 6 Rhagfyr, gan Siôn Corn neu'r Baban Iesu ar noswyl Nadolig neu ddydd Nadolig a chan y Tad Rhew ar ddydd Calan.

Yn Rwmania mae'r goeden Nadolig yn cynrychioli ffynhonnell bywyd. Dylai'r ffynidwydden fod y mwyaf y medrai'r teulu ddod o hyd iddi.

Yn Sbaen maent yn bwyta Roscón de Reyes, teisen grwst draddodiadol, y noson cynt, neu ar fore'r 'Reyes' (Diwrnod y Brenin) i ddathlu'r Ystwyll.

Dechreuodd y traddodiad o ddod â choeden i mewn i'r tŷ yn yr Almaen fel y gwnaeth y calendr Adfent. Yng nghanol y 19eg ganrif, byddai Protestaniaid yr Almaen yn rhoi marciau sialc ar ddrysau neu'n cynnwys canhwylau i gyfrif y dyddiau hyd at y Nadolig.

Yn y Ffindir ar noswyl Nadolig darllenir y Datganiad Heddwch sy'n annog pobl i ymddwyn yn heddychlon ac yn barchus. Caiff y datganiad ei ddarlledu ar y Teledu ac ar y Radio.



2015 - Y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu

Fe gyflwynom y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu yn ein Newyddlenni blaenorol. Fe wnaethom sôn fod gan bob mis thema.

Rhagfyr: Hawliau Dynol a Threfn Llywodraethu

Democratiaeth a hawliau dynol yw egwyddorion sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd a chaiff hynny ei hyrwyddo wrth i ni gydweithio â gwledydd eraill yn rhyngwladol. Fel y dywed y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol: mae pob bod dynol wedi ei eni yn rhydd ac yn gyfartal o ran urddas a hawliau. Hawliau dynol yw conglfaen cymdeithasau cynhwysol a bywiog lle mae'r llywodraethau'n gweithio er budd y bobl a phan fo gan bawb hawl i gyfrannu. I'r gwrthwyneb, pan fo'r drefn lywodraethu'n methu a bod hawliau dynol yn cael eu torri, y bobl dlotaf a'r mwyaf diamddiffyn sy'n dioddef fwyaf. Felly mae goresgyn y rhwystrau sy'n arwain at sefyllfa barhaus o fynd yn groes i hawliau dynol – brwydro yn erbyn gwahaniaethu, sicrhau rheolaeth y gyfraith a sefydlu sefydliadau teg a chynhwysol – yn hollbwysig os ydym i gynnal urddas dynol, trechu tldi, hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwrthdaro.

Ffynhonnell: <https://europa.eu/eyd2015/en?month=12#theme-of-the-month>



Nawr bod y Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu yn tynnu tua'i therfyn nid yw'n golygu bod gweithgareddau datblygu yn peidio. Gallwch ddysgu mwy wrth ddarllen y llyfrynau byr yma. Mynnwch gopi yn y ganolfan neu cysylltwch â ni a gallwn e-bostio copi atoch neu anfon un yn y post.

- From A to Z - EU's humanitarian aid and civil protection across the globe
- Humanitarian aid at a glance



Mae rhagor o lyfrynau ar gael, gofynnwch am fanylion.



Oddi wrth bawb yn Ewrop Uniongyrchol Wrecsam dymunwn Nadolig Llawen i chi a Blwyddyn Newydd Dda.



Joyeux Noël Glædelig Jul
 Fröhliche Weihnachten God Jul
 Feliz Navidad Vrolijk Kerstfeest
 Roomsaid Joulu Puhi Iloista Joulua
 Buon Natale Καλά Χριστούγεννα
 Kellemes Karácsonyi Ünnepeket Sretan Božić
 Nollaig Shona Duit Veselé Vánoce
 Vesel Bozic Veselé Vianoce
 Craciun Fericit Feliz Natal
 Wesolych Swiat Bozego Narodzenia
 Il-Milied It-Tajjeb Linksmu Kaledu
 Priecigus Ziemassvetkus щастлива Коледа
 Nadolig Llawen

Merry Christmas!



Beth yw Ewrop Uniongyrchol?

Gwasanaeth gwybodaeth ynglŷn ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yw Ewrop Uniongyrchol Wrecsam. Rydym yn darparu llawer iawn o lenyddiaeth AM DDIM ar gyfer pobl o bob oedran ynglŷn â phob math o bynciau gan gynnwys yr amgylchedd, Senedd Ewrop, cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn Ewrop, teithio yn Ewrop ac ieithoedd.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau ar gyfer athrawon i'w cynorthwyo wrth gyflwyno pynciau'n ymwneud ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Rydym yn cynnig deunyddiau am ddim megis mapiau, baneri a phosteri er mwyn creu arddangosfeydd wal lliwgar am Ewrop.

Yn ogystal â'r cyhoeddiadau, rydym hefyd yn cynnal gweithdai AM DDIM mewn ysgolion ar bynciau megis hanes yr Undeb Ewropeaidd, yr hyn y mae'n ei wneud, sut caiff cyfreithiau eu gwneud, pwysigrwydd dysgu ieithoedd tramor modern, busnes a masnach a'r amgylchedd.

Mae'r gweithdai'n cynnwys amrywiol weithgareddau y gellir dewis a dethol o'u plith, megis cyflwyniadau, cwisiau, gemau map, dylunio Aelod Senedd Ewrop a dylunio bag Ewropeaidd er mwyn ffurfio gwers.

Yn ogystal â gweithdai, gallwn helpu i drefnu wythnosau Ewropeaidd, gwasanaethau Ewropeaidd, diwrnodau hwyl ac ymweliadau gan Aelodau Senedd Ewrop fel rhan o ddyddiau cwricwlwm.

Nod y cylchlythyr hwn yw eich hysbysu am yr Undeb Ewropeaidd, darparu gwybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ac am raglenni a allai fod o fudd i chi a mwy.

Esiamplau o'r Gweithdai:

European Fairies (3-11 oed, sesiwn 1 awr)

Europe and the European Union and how it works. (11-18 oed, sesiwn 1 awr)

Design a European Cotton Bag (7-14 oed, sesiwn 1 awr)

European Postcards (8-11 oed, sesiwn 1 awr)

Design Your Own Politician (11-16 oed, sesiwn 30 munud)

Design your own European Citizen (11-16 oed, sesiwn 30 munud)

Design an EU flag (8-11 oed, sesiwn 30 munud)

Os oes gennych ddiddordeb mewn Europe Direct Wrecsam yn dod atoch i wneud cyflwyniadau yn eich ysgol, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni ar y manylion isod:

**Europe Direct
Wrecsam**

Llyfrgell Wrecsam,
Ffordd Rhosddu,
Wrecsam,
LL11 1AU

europedirect@wrexham.gov.uk

01978 292631